


Meilyr Siôn

Mae Daisy a'i theulu wedi symud o'r gogledd i Gwm y Wrach i gadw canolfan arddio. Dydy pethau ddim yn fêl i gyd i Daisy yn ei hysgol newydd oherwydd Buddug a Rhodri, yr efeilliaid sy'n ei bwllo hi, ac mae pethau gartref yn anodd hefyd oherwydd bygythiad gan gwmni mawr sydd eisiau ffracio yn y cwm.

Pan mae Daisy'n benthg llyfr chwedlau o ffair lyfrau'r ysgol, mae pethau rhyfedd a rhyfeddol yn dechrau digwydd. Mae antur fawr ar droed i Daisy, ond fydd unrhyw un arall yn gweld beth mae hi'n ei weld? Fydd Daisy'n cael y gorau ar y bwllis? Beth fydd yn digwydd i'w chartref ac i Gwm y Wrach?



Darluniau gan Philip Huckin
Oed 7–11 Atebol
ISBN: 9781912261789



holi Meilyr Siôn

Hoff lyfr o 'mhlentyndod:

Straeon Twm Siôn Cati gan T. Llew Jones

Hoff gymeriad mewn llyfr:

Alex Rider

Hoff le:

Ar lan afon neu mewn coedwig

Hoff fwyd:

Pasta, madarch, tomato a basil

Hoff ffilm/rhaglen deledu:

Peaky Blinders a rhaglenni

David Attenborough

Hoff air:

Diolch

Superpower o ddewis:

Rhedeg drwy waliau

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol:

Facebook

Beth sy'n gwneud i mi wenu:

Fy mhlant

Swydd ddelfrydol:

Actor!

Top tip i ddarpar awduron:

Peidiwch byth â rhoi'r ffidil yn y to!

1. Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Ces i fy ngeni yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth, filoedd o flynyddoedd yn ôl! Dwi'n hen, hen, hen erbyn hyn! Yna, ces i fy magu ar fferm yn Neuadd-lwyd, rhwng Ciliau Aeron ac Aberaeron yng Ngheredigion.

2. Ble cawsoch chi eich addysgu?

Ysgol Gynradd Ciliau Parc ac yna Ysgol Gyfun Aberaeron. Wnes i astudio Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd.

3. Beth oeddech chi'n ei hoffi/ei gasáu am yr ysgol?

Wnes i fwynhau pob eiliad o'n amser yn Ysgol Ciliau Parc, yn enwedig bwyd y cogyddion amser cinio! Bydden i'n gofyn yn gyson am gael gorffen gweddillion y jygiau cwstard ar ôl amser pwdin! Ro'n i'n joio gwersi Cymraeg Mr Llewelyn yn yr ysgol uwchradd, a chwarae pêl-droed bob amser egwyl. Yn aml bydden i'n cerdded rhyw filltir i ddal y bws yn y bore a cherdded adre yn y prynhawn – roedd hynny'n ddiflas yn y glaw. Ro'n i'n casáu mathemateg a wnes i fyth deall y pwnc!

4. Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?

Ro'n i wastad wedi eisiau bod yn actor a bod ar y teledu, neu fod yn blismon. Yn anffodus dwi ddim yn dal iawn, felly bu'n rhaid i mi anghofio am y syniad o ymuno â'r heddlu.

5. Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn?

Heb os, cyfres straeon Twm Siôn Cati gan T. Llew Jones. Ro'n i'n mynd i Dregaron yn aml i weld ffrindiau pan ro'n i'n iau, felly o'n i'n gallu dychmygu'r lle yn fy mhen wrth darllen y llyfrau. Ro'n i'n dwlu ar hanes Twm hefyd; fe oedd un o'n hoff gymeriadau hanesyddol.

6. Beth yw eich diddordebau?

Dwi'n joio teithio, cerdded, busnesa a choginio. Dwi'n hen folgi bach yn y bôn felly dwi'n dwlu cael yr esgus i stwffio fy mola ar ôl bod yn paratoi bwyd! Dwi wrth fy modd yn darllen ac yn gwyllo rhaglenni am fywydau pobl mewn llefydd anghysbell. Dwi hefyd yn cadw rhandir felly dwi'n hoffi tyfu llysiau.

7. Beth sy'n gwneud chi'n hapus?

Ysgrifennu straeon, treulio amser ar fy mhatsyn ar y rhandir a threulio amser gyda fy mhlant. Dwi hefyd yn dwlu ar wrando ar adar yn canu.

8. Beth sy'n eich gwylltio?

Pobl haerllug, hiliol ac anoddefgar. Dwi hefyd yn gwylltio pan nad yw gyrwyr ceir yn defnyddio'u cyfeirwyr wrth droi!

9. Pryd ddechreuoch chi feddwl am sgwennu?

Wnes i feddwl am sgwennu am flynyddoedd ond doedd gen i ddim digon o hyder nes i mi gyrraedd 30 oed. Yna, sgwennais i gyfres Parc Deri a dwi 'di cario 'mlaen ers hynny.

10. O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

Wrth gerdded, gwyllo rhaglenni dogfen, darllen llyfrau, ac wrth siarad â disgyblion ysgol mewn gweithdai sgwennu. Dwi bob amser yn meddwl am syniadau.

11. Oes pynciau/themâu arbennig sy'n apelio atoch?

Oes – dwi'n dwlu ar chwedlau a mytholeg Cymru a gwledydd eraill ar draws y byd. Mae materion amgylcheddol hefyd yn bwysig i mi, ynghyd â hanes.

12. Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Darllenwch gymaint o lyfrau ag y medrwyd chi. Peidiwch byth â rhoi'r ffidil yn y to. Os ydych chi'n ysu i sgwennu, ewch amdani!

13. Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?

Y peth gorau yw creu byd a chymeriadau newydd sbon! Dwi'n dwlu ar greu sefyllfaoedd a deialog ar gyfer cymeriadau'r stori, ynghyd â llunio plot. Y peth gwaethaf yw'r ansicrwydd a ddaw ar ôl gorffen – ydi e'n ddigon da? Ydi'r stori'n gweithio? Mae ailsgwennu'n gallu bod yn boen, yn enwedig os dwi'n credu bod y gwaith 'di gorffen ac yna'n sylweddoli bod rhaid i mi fwrw ati i wneud newidiadau.

Teitlau eraill gan yr awdur

